


72% o'r holl weithgarwch yn ystod y cyfnod hwn sy'n berthnasol i'r sector cig coch



Canolfan Cyfnewid Gwybodaeth

Erthyglau technegol a gynhyrchwyd gan y Ganolfan Cyfnewid Gwybodaeth:

 SUT MAE GWYNDONNYDD LLYSIEUOL YN EFFEITHIO AR IECHYD A PHERFFORMIAD WŶN SY'N PORIS

 GWELLA IECHYD Y FUCHES SUGNO BÎFF GYDA STRATEGAETHAU RHEOLI YN YSTOD Y CYFNOD LLOIA

 CLAFR DEFAID: Y DIWEDDARAF AC YSTYRIAETHAU AT Y DYFODOL

Gweminarau



CYNHALIWYD 4 GWEMINAR AR THEMA CIG COCH

gyda



182 O WYLWYR

Mae enghreifftiau o'r gweminarau a gynhaliwyd yn cynnwys:

Bwydo'r famog i baratoi ar gyfer wyna



Manteision ac anfanteision contractau magu a diddychu llo



Rhwydwaith Arddangos

Dulliau cost-effeithiol o adnewyddu hen borfa – Safle Arddangos Bodwi

Mae Safle Arddangos Bodwi yn ddaliad biff a defaid ar dir isel. Mae'r ardal sy'n cael ei ffermio yn cynnwys 113ha o dir rhent. Defnyddir y tir rhent yn bennaf ar gyfer pori, gyda chyfran fawr yn cael ei reoli fel system bori cylchdro ar gyfer y fuches.

Mae'r tir yn derbyn calch a gwrtiaith yn rheolaidd, ond nid yw wedi cael ei drin ers nifer o ddegawdau. Mae cynhyrchiant porfa yn dda. Fodd bynnag, mae presenoldeb cynyddol o rywogaethau chwyn – mwsogl yn benodol – wedi ymddangos yn y glaswellt yn y blynyddoedd diwethaf. Mae presenoldeb mwsogl yn gyffredinol yn gysylltiedig ag amodau gwlyb, argaeledd fforforws uchel a/neu faethiad gwael, lle na all y glaswellt gystadlu â rhywogaethau chwyn. Fodd bynnag, nid yw'r materion hyn yn arbennig o amlwg ar y tir hwn.

Mae adnewyddu glaswelltir drwy beidio â defnyddio unrhyw driniaeth tir (no-till) neu leiafswm o driniaeth tir (min-till) fel dull sefydlu yn dod yn fwyfwy poblogaidd, wrth i leihau triniaeth tir ddod yn flaenoriaeth i lawer o ffermwyr sydd am wella eu rheolaeth bridd a deunydd organig. Gall yr aflonyddwch a achosir gan drin gael effaith negyddol ar strwythur, iechyd a gweithrediad y pridd. Gall adnewyddu porfeydd hŷn trwy droshau fod yn ddull effeithiol o wella cynhyrchiant ac ansawdd porfa, heb y baich ariannol ac amgylcheddol o aredig.

Mae yna nifer o ddulliau adnewyddu y gellir eu rhoi ar waith ar y fferm. Nod y prosiect hwn yw archwilio'r potensial ar gyfer adnewyddu hen borfa sy'n llai cynhyrchiol trwy ddefnyddio dulliau sefydlu lleiafswm triniaeth tir (e.e. awyru, defnyddio og cyn drilio'n uniongyrchol), ac wrth wneud hynny, asesu effaith gwahanol ddulliau adnewyddu ar lwyddiant sefydlu mathau newydd o laswellt. Hefyd, gwerthuso effaith dulliau adnewyddu a chyflwyno mathau newydd ar laswellt ar iechyd y pridd, ac ansawdd a maint y glaswellt.

Grwpiau Trafod



67

CYFARFOD TRAFOD CIG COCH

wedi'u cynnal gyda



600

O FYNCHWYR

Astudiaeth achos

Roedd Grŵp Trafod pesgi biff ar Ynys Môn wedi mynegi diddordeb mewn dysgu mwy am dyfu eu protein eu hunain ar y fferm, er mwyn lleihau costau mewnbwn. Trefnodd eu swyddog datblygu gyfarfod gydag Wyn ac Eurig Jones o Safle Arddangos Cyswllt Ffermio – Pantyderi, ochr yn ochr â Dr Delana Davies, swyddog technegol Cyswllt Ffermio sydd wedi bod yn gweithio â nhw ar brosiect â.

Gwelodd y prosiect y fferm yn sefydlu cnwd cymysg o bys a ffa y gellid ei gynaeafu a'i storio mewn cladd ar gyfer bwydo yn y gaeaf.

Canlyniad y prosiect oedd gostyngiad o £33/tunnell mewn costau dwysfwd, gyda'r busnes yn arbed cyfanswm o £5,588 yn y pen draw ar gyfer y fenter besgi biff.

Prif fanteision tyfu pys a ffa fel cnwd cymysg yw:

- Mae pys yn sefydlu'n gynnar ac yn darparu gorchudd ddaear sy'n rhwystro chwyn rhag tyfu
- Mae ffa yn darparu 'sgaffald' naturiol sy'n helpu i gynnal y cnwd yn hwyrach yn y cyfnod tyfu
- Mae'r ddau gnwd yn elwa o'r un agronomeg
- Mae tyfu'r ddau gnwd gyda'i gilydd yn sicrhau bod y ddau yn aeddfedu gyda'i gilydd
- Mae'r pys yn llenwi'r pocedi aer rhwng y ffa yn y cladd wrth grimpio, gan hwyluso gwell amodau anaerobig
- Mae profion yn dangos bod cnwdau cymysg yn dueddol o roi cnwd gwell na chnwd a dyfir ar ei ben ei hun.

Cynhyrnod y cnwd 5.25t/ha o bys a ffa a 22 byrnau mawr o wellt/ha. Costiodd £432/ha i dyfu'r cnwd, £100/ha i'w gynaeafu a £24/ha i'w grimpio. Roedd hyn yn cyfateb i brynu dwysfwd ar 86% DM am £117/tunnell. O ran arbedion ariannol y pen/y dydd, roedd yn costio 1c yn llai i'w fwydo i wartheg stôr a 21c yn llai i besgi gwartheg.

Cafodd amheuan cychwynnol aelodau'r grŵp eu tawelu gan Wyn ac Eurig, a sicrhodd fod y broses o dyfu a chynaeafu wedi bod yn gymharol syml. Y fantais a apeliodd fwyaf oedd yr arbediad sylweddol mewn nitrogen (N) ar gyfer y cnwd gwenith dilynol: amcangyfrifwyd bod sefydlu cnwd pys a ffa wedi cyfrannu 100kg o N gweddilliol yn y pridd.

Cafwyd trafodaeth addysgiadol dda rhwng yr aelodau a'r siaradwyr gwadd, gyda rhai aelodau'n awyddus i fentro i dyfu eu protein eu hunain ar y fferm.

Cymorthfeydd



27

O GYMORTHFYDD WEDI'U CYNNAL



Roedd y pynciau allweddol yn cynnwys:

1 Cyfrifyddiaeth

4 Cynllunio

1 Busnes

7 Marchnata ac arallgyfeirio

3 Cyfrifo ôl troed carbon

5 Cyfreithiol

1 TG

1 Rheoli staff

Mynychodd fferm ddefaid a biff gymhorthfa busnes a pherfformiad busnes i adolygu eu cynllun busnes er mwyn gwneud cais am denantiaeth. Rhoddodd hyn arweiniad iddynt ar gostau a sut i werthuso perfformiad eu busnes.



Datblygu glasbrint ar gyfer rheoli clwy cataraidd malaen (MCF) mewn bison, byfflo a gwartheg yng Nghymru

Yn y Deyrnas Unedig a Chymru, mae rhai cynhyrchwyr arloesol wedi dod o hyd i farchnad sy'n awyddus i brynu cig bison. Ystyrir bod y cig coch hwn yn iachach na chynhyrchion biff traddodiadol, gan ei fod yn cynnwys llai o fraster, cholesterol a sodiwm. Mae'r cynnwys protein hefyd yn debyg iawn, mae'n cynnwys llai o galoriau, ac mae'n uchel mewn haearn a fitamin B12.

O'i gymharu â chig eidion yn y Deyrnas Unedig, mae cig bison yn werth llawer mwy, gyda phrisiau pwysau marw am fison yn tua dwywaith y pris a geir am wartheg, ac mae'r prisiau adwerthu am gig bison yn aml dros 1.5 gwaith yn fwy na chig eidion.

O'r herwydd, mae bison yn cael eu hystyried fel un dewis i ffermwyr sy'n awyddus i arallgyfeirio. Fodd bynnag, nid yw bison yn hawdd i'w ffermio – nid yn unig oherwydd eu tymer a'u sensitifrwydd i straen, ond hefyd y ffaith eu bod yn fwy agored i'r clwy cataraidd malaen (MCF), sy'n cael ei ystyried fel un ffactor sy'n cyfyngu ar y gallu i'w cynhyrchu'n llwyddiannus.

Gall MCF effeithio ar wartheg, bison, byfflo dŵr, ceirw a iaciaid, gyda defaid yn cael eu hystyried fel y prif anifeiliaid lletyol. Fodd bynnag, credir bod bison, byfflo a cheirw yn llawer mwy agored na gwartheg, a dyma un o'r prif rwystrau i ffermwyr sydd eisieu arallgyfeirio i'r marchnadoedd arbenigol proffidiol hyn.



Cymerwch olwg ar y **fideo** i ddysgu sut mae'r prosiect EIP Cymru hwn yn ymchwilio i ffyrdd o reoli'r clefyd ar ffermydd yng Nghymru.

Digwyddiadau Ymwybyddiaeth Strategol

9 Digwyddiad wedi'u cynnal gyda 277 o fynychwyr

Roedd y pynciau allweddol yn cynnwys:

Beth yw ôl troed carbon ein fferm? Sector cig coch

Ymunodd Diane Spence a John Richards â Cyswllt Ffermio ar gyfer gweminar yn trafod sut y gall busnesau fferm yn y sector cig coch gyfrifo eu hól troed carbon. Yn ystod y weminar, trafodwyd y pynciau canlynol:

- Egwyddorion a'r materion allweddol sy'n dylanwadu ar yr ôl troed carbon
- Pa ddata sydd ei angen i fesur yn gywir
- Cyflwyniad i dri adnodd cyfrifo carbon, sydd ar gael yn rhad ac am ddim

Gweminar rhyngweithiol oedd hon, lle cafodd y gynulleidfa gyfle i ofyn a thrafod cwestiynau.

Iechyd mamogiaid cyn ŵyna

Ymunodd Fiona Lovatt â Cyswllt Ffermio i roi cyngor ac arweiniad ar sut i gadw mamogiaid yn iach cyn ŵyna.

Isod mae rhai o'r pwyntiau a gafodd sylw yn y weminar hon:

- Cyflwynodd Fiona canlyniadau astudiaeth colostrwm Cyswllt Ffermio a gynhaliwyd y llynedd, lle casglwyd data gan 1,295 o famogiaid a 64 o ddiadelloedd yng Nghymru.
- Y llynedd, rhoddwyd bron i 6 miliwn dos o Sbectam i ŵyn yn y DU, ac nid yw ar gael eleni. Rhannodd Fiona opsiynau ac arweiniad ar ddeisiadau eraill.

Roedd cyfle hefyd i ofyn cwestiynau yn y weminar hon.

*Mae themâu Digwyddiadau Ymwybyddiaeth Strategol yn aml yn draws-sectoraidd sy'n tueddu i ddenu ffermwyr o bob sector, gan gynnwys y sector cig coch.

Cyfnewidfa Rheolaeth

Rebecca Williams

Mae'r ffermwr ifanc Rebecca Williams yn bartner busnes ar fferm ucheldir 400 erw ei theulu, lle bu'n gweithio am y pum mlynedd diwethaf. Mae ganddi archwaeth i ddysgu, ac mae'n bwriadu defnyddio ei hymweliad fel rhan o'r Gyfnewidfa i ddysgu popeth o fewn ei gallu am farchnata ac ychwanegu gwerth at gig coch.

"Mae effeithlonrwydd a phroffidioldeb yn ddau yrrwr allweddol i mi, felly rwyf am ddysgu gan ffermwyr sy'n prosesu ac yn marchnata eu cynnyrch yn llwyddiannus yn uniongyrchol i ddefnyddwyr."



Rhaglen Fentora

10 O FFERMWYR CIG COCH NEWYDD YN DEFNYDDIO'R RHAGLEN FENTORA

87 O FFERMWYR CIG COCH YN CAEL EU MENTORA AR HYN O BRYD

76% O'R HOLL FENTAI GWEITHREDOL AR HYN O BRYD YN FFERMWYR CIG COCH



Roedd mhentai newydd yn chwilio am arweiniad ar amrywiaeth o bynciau, gan gynnwys:

Rheoliadau Llygredd Amaethyddol	Ffermio organig	Pori cylchdro
---------------------------------	-----------------	---------------

Cliciwch **yma** i agor y Cyfeiriadur Mentoriaid.

Gweithdai Hyfforddiant Iechyd a Lles Anifeiliaid


(yn berthnasol i'r sector cig coch)

31 O WEITHDAI CYNHALIWYD gyda **401** O FYNICHWYR

Colli ŵyn – Rhan 1: Erthylyu a maeth
Colli ŵyn – Rhan 2: Rhwng geni a diddyfnu
Cloffni mewn defaid
Rheoli parasitiaid mewn defaid – Rhan 1: Llyngyr main a phryfed chwythu
Deall clefyd Johne
Iechyd stoc ifanc

Hyfforddiant

Yn ystod y cyfnod hwn, darparwyd **318** achos o hyfforddiant wyneb i wyneb i'r sector cig coch.



Y cyrsiau mwyaf poblogaidd yn ôl categori yn y sector cig coch:

E-ddysgu

Rhai o'r cyrsiau e-ddysgu a gwblhawyd yn ystod y cyfnod hwn:

ERTHYLU MEWN MAMOGIAID	ŴYNA SYLFAENOL
AMAETH-FFERYLLIAETH – CENNIN PEDR A CHLEFYD ALZHEIMER	CADW LLOI DAN DO

Cliciwch **yma** i fynd i'r wefan.

